Estyn

# Cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y sectorau ôl-16

## Gwerthuso Effeithiolrwydd Cynlluniau Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog i'r sector Addysg Bellach a Phrentisiaethau y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mawrth 2025

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig a gynhelir
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- darpariaeth trochi yn y Gymraeg
- gwaith ieuenctid
- addysg gychwynnol athrawon
- Cymraeg i oedolion
- prentisiaethau
- dysgu yn y sector cyfiawnder

**Mae Estyn hefyd:**

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

**Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru.**

**© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad/y cyhoeddiad penodol.**

## Cynnwys Tudalen


**Crynodeb gweithredol** ........ **1**

**Cyflwyniad** ........ **4**

**Cefndir** ........ **5**

**Argymhellion** ........ **7**

**Arweiniad strategol a chefnogaeth ymarferol i ddarparwyr** ........ **8**

Arweiniad i golegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau ........ 8

**Y cynlluniau hyfforddiant** ........ **10**

Sesiynau e-ddysgu ........ 10

Effaith y ddarpariaeth e-ddysgu ........ 11

Y rhaglen datblygu staff cenedlaethol Sgiliaith ........ 12

Effaith y ddarpariaeth Sgiliaith ........ 14

Cymraeg Gwaith Addysg Bellach ........ 15

Darpariaeth Cymraeg Gwaith ........ 16

Addysgu a Dysgu ........ 17

**Mesur traweffaith** ........ **19**

Effaith y cynlluniau hyfforddi ........ 19

**Ffactorau sy'n rhwystro llwyddiant yr hyfforddiant** ........ **24**

Rhwystrau ymarferol: amser a ddengys ........ 24

**Enghreifftiau o arfer dda** ........ **26**

Y ffordd ymlaen ........ 26

**Atodiad 1: Cynnydd yng ngallu iaith y gweithlu** ........ **30**

Ystadegau Blynyddol y Gweithlu Addysg 2024: Cyngor y Gweithlu Addysg ........ 30

**Dulliau a sail y dystiolaeth** ........ **33**

**Geirfa** ........ **34**

Niferoedd – meintiau a chyfrannau ........ 34

**Cyfeiriadau** ........ **35**

## Crynodeb gweithredol

Mae’r adroddiad hwn yn gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau hyfforddiant, dan ofal y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, i ddatblygu medrau iaith Gymraeg ac addysgeg ddwyieithog ymarferwyr yn y sector addysg bellach a phrentisiaethau. Mae’r cynlluniau yn rhan o Gynllun Gwreiddio’r Coleg ac yn cyd-fynd â’i weledigaeth o alluogi pob aelod o staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ac addysgeg ddwyieithog, gyda’r nod o gynyddu nifer y myfyrwyr a phrentisiaid sy’n dewis astudio yn rhannol neu yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae’r Cynllun Gwreiddio yn cefnogi amcanion strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr yn y sector addysg ôl-orfodol.

Rydym, yn yr adroddiad, wedi canolbwyntio ar dri math o ddarpariaeth

- Sesiynau e-ddysgu
- Darpariaeth Sgiliaith
- Cynllun Cymraeg Gwaith Addysg Bellach

At ei gilydd, mae’r cynlluniau yn cael effaith cadarnhaol ar yr ymarferwyr sydd yn manteisio arnynt. Mae nifer yr ymarferwyr sy’n siarad ac sydd wedi’u cofrestru yn ôl eu gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu yn y sectorau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith ers 2020. Fodd bynnag, nid oes data penodol sy’n cysylltu hyn yn uniongyrchol âr hyfforddiant.[1]

Mae nifer y gweithgareddau dysgu sy’n cynnwys *‘ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg’* wedi cynyddu’n sylweddol yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, nid oes cynnydd yn y gweithgareddau dysgu mewn categorïau fel ‘*cyfran helaeth o ddysgu cyfrwng Cymraeg, dwyieithog’* a ‘*Cymraeg yn unig’* yn ystod yr un cyfnod. Mae hyn yn adlewyrchu patrwm y cynlluniau hyfforddi sydd yn fwy effeithiol o ran targedu staff sydd a medrau iaith lefel isel ac ar gychwyn eu taith ar hyd y continwwm iaith. Yn gyffredinol, mae’r ffigurau yn cyd-fynd â chanfyddiadau’r adroddiad hwn sef ychydig iawn o effaith sydd ar ddatblygu medrau iaith ymarferwyr tu hwnt i’r lefelau cychwynnol. Mae hyn yn cyfyngu cyfleoedd myfyrwyr a phrentisiaid i ddefnyddio’r Gymraeg yn gyson yn eu dysgu.

Gwelom enghreifftiau o arfer dda ar draws y tri math o ddarpariaeth. Roedd traweffaith y gwaith ar ei orau pan:

- Mae arweinwyr ar bob lefel yn glir am bwysigrwydd strategol cynyddu defnydd o’r iaith Gymraeg.
- Mae hyfforddiant yn targedu staff sydd eisoes â medrau iaith cryf.

[1] https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/documents-cym/about-2/workforce-statistics-cym/annual-statistics-digest-cym/current-1/1244-adroddiad-ystadegau-blynyddol-y-gweithlu-addysg-2024/file. Gweler T29 yr adroddiad hwn.

- Mae colegau yn cynnig amser priodol i staff gyflawni hyfforddiant fel rhan o'u 24 o oriau dysgu.
- Mae arweinwyr yn cydnabod y Gymraeg fel sgìl, ac o ganlyniad yn cynnig cydnabyddiaeth ariannol i ymarferwyr sydd yn meddu ar uwch fedrau addysgeg ddwyieithog.
- Mae ymdrechion staff i ddatblygu eu harferion addysgu wrth symud i fyny'r pyramid neu gontinwwm iaith yn cael eu cydnabod yn broffesiynol.
- Mae canllawiau clir i staff yn bodoli ar sut i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.
- Mae gweithdrefnau arsylwi a sicrhau ansawdd mewnol darparwyr yn gadarn ac yn ffocysu ar y Gymraeg ac addysgeg ddwyieithog.
- Mae darpariaeth a hyfforddiant yn cael eu haddasu yn unol â gofynion staff.

Mae perthnasoedd gwaith cryf a chefnogol rhwng y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a cholegau a darparwyr unigol. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau'r Coleg yn ddigon cadarn i sicrhau bod trefniadau blaengynllunio, sicrhau ansawdd a monitro effaith hyfforddiant yn gyson ar draws darparwyr unigol ac yn genedlaethol.

O ganlyniad, rydym wedi cynnwys pedwar argymhelliad i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol:

- *Cynnig rhagor o her ac arweiniad i golegau a darparwyr prentisiaethau wrth werthuso effaith hyfforddiant ar y gweithlu gan flaengynllunio'n fwriadus i symud arferion addysgu a'r cynnig i fyfyrwyr a phrentisiaeth i fyny'r pyramid iaith (o B3 i B2 ac i fyny).* Yn gyffredinol, er bod llawer o sefydliadau yn teimlo eu bod yn cydweithio'n dda gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, dim ond mwyafrif sy'n teimlo eu bod yn atebol i'r Coleg o ran allbynnau. Byddai llawer ohonynt yn croesawu rhagor o graffu ar eu gwaith wrth iddynt gynllunio a mesur effaith hyfforddi ar allu ieithyddol ac addysgeg ddwyieithog eu staff. Ar y cyfan, nid yw'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn craffu'n ddigon manwl ar dargedau a thystiolaeth ac nid oes diwylliant priodol o herio a chwestiynu penderfyniadau'r colegau a darparwyr

- *Gweithio gyda phartneriaid perthnasol i ymestyn cynnig Sgiliaith i siaradwyr Cymraeg trwy greu hyfforddiant addysgeg ddwyieithog ddwys sy'n arwain at gymhwyster proffesiynol cydnabyddedig*. Mae darpariaeth Sgiliaith yn effeithiol o ran uwchsgilio staff i addysgu'n gynyddol ddwyieithog. Mae angen ymestyn y math o ddarpariaeth sydd ar gael i ymarferwyr Cymraeg eu hiaith, fel y cwrs addysgeg ddwyieithog presennol, i greu cwrs dwys sy'n arwain at gymhwyster proffesiynol cydnabyddedig. Trwy wneud hyn, byddai mwy o ymarferwyr ieithyddol hyderus ar gael fyddai'n gallu cynnig darpariaeth gynyddol ddwyieithog neu Gymraeg.

- *Cydweithio yn strategol â Cholegau, darparwyr prentisiaethau a phartneriaid perthnasol eraill i brif ffrydio mentrau arloesol i gydnabod gwerth y Gymraeg fel sgìl ychwanegol sy'n cael ei gydnabod yn ymarferol ac yn ariannol.* Yn yr adroddiad

rydym yn tynnu sylw at fentrau arloesol fel y cynllun 'Methodoleg Addysgwyr Dwyieithog' yng Ngholeg Cambria. Mae Coleg Cambria yn pwysleisio pwysigrwydd strategol y Gymraeg yn nerthol gan gynnig cymhelliannau ariannol i ymarferwyr, yn ogystal ag amser digyswllt o'u hamserlenni addysgu yn ystod yr hyfforddiant, am gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu sesiynau. Mae hyn yn enghraifft nodedig o gynllunio ieithyddol trwy gynllunio gweithlu.

- *Cydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i sicrhau bod y cynnig i ddysgwyr, safonau dysgu ac addysgu, gweithdrefnau sicrhau ansawdd a datblygiad proffesiynol i diwtoriaid yn gyson â'r sector Dysgu Cymraeg.* Mae nifer y staff sy'n dilyn cyrsiau Cymraeg wedi cynyddu dros y blynyddoedd ac mewn llawer o wersi maent yn gwneud cynnydd cadarn. Fodd bynnag, nid yw addysgeg mewn ychydig o achosion yn arddel dulliau llwyddiannus y sector Dysgu Cymraeg sydd yn ei dro'n cael effaith ar safonau'r dysgwyr. Mae anghysonderau hefyd ar draws y colegau o ran oriau cyswllt i ddysgwyr ar gyrsiau, gweithdrefnau sicrhau ansawdd a chyfleoedd dysgu proffesiynol i diwtoriaid.

<u>Rydym wedi cynnwys dau argymhelliad i golegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau:</u>

- *Cydweithio â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gysoni'r ffordd mae ymarferwyr yn cael mynychu hyfforddiant a gwersi iaith gan anelu at sicrhau eu bod yn cael amser digyswllt o'u hamserlenni addysgu i'w gyflawni heb ychwanegu at eu llwyth gwaith*. Y prif rwystr i staff sydd am fynychu hyfforddiant yw diffyg neu bwysau amser. Mae hyn yn arbennig o wir am gyrsiau yn y rhaglen Cymraeg Gwaith. Nid yw rheolwyr llinell yn fodlon rhyddhau staff bob tro. Yn ogystal, yn y rhan fwyaf o achosion, mae staff yn gorfod mynychu cyrsiau ar ben eu horiau addysgu neu ddyletswyddau arferol eraill sydd yn effeithio ar allu staff i ymuno â chyrsiau a'u cwblhau.

- *Parhau i fireinio eu cynnig datblygiad proffesiynol i ymarferwyr i gynyddu eu medrau iaith Cymraeg ac addysgeg ddwyieithog gyda'r nod strategol o symud staff a myfyrwyr/prentisiaid ar hyd y continwwm iaith yn fwriadus.* Ac eithrio i ychydig iawn o sefydliadau, mae angen i golegau a darparwyr prentisiaethau ymestyn y gwaith da maent wedi'i gyflawni o ran cynyddu defnydd *o 'ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg'* mewn gweithgareddau dysgu i anelu at lefelau uwch y pyramid neu gontinwwm iaith er mwyn gwireddu nodau polisïau fel Cymraeg 2050.

<u>Rydym wedi cynnwys un argymhelliad i Lywodraeth Cymru a Medr sef:</u>

- *Cydweithio â r sectorau addysg bellach a phrentisiaethau i gysoni'r defnydd o gategorïau iaith darpariaeth ac i ystyried yr angen i wneud newidiadau i'r categorïau er mwyn hwyluso hynny*. Mae diffyg cysondeb o hyd yn y ffordd mae colegau a darparwyr yn cofnodi categorïau ieithyddol eu darpariaeth. Yn ogystal, mae llawer o ymarferwyr o'r farn broffesiynol bod angen ailedrych ar ddiffiniadau'r categorïau hynny er mwyn hwyluso taith ymarferwyr yn ogystal â myfyrwyr a phrentisiaid i fyny'r pyramid neu gontinwwm iaith.

## Cyflwyniad

Ysgrifennwyd yr adroddiad thematig hwn i ymateb i gais am gyngor gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn ei lythyr gwaith i Estyn ar gyfer 2024-25. Mae'r adroddiad yn gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau hyfforddiant, dan ofal y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, i ddatblygu medrau iaith Gymraeg ac addysgeg ddwyieithog ymarferwyr yn y sector addysg bellach a phrentisiaethau. Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, Medr, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn ogystal â cholegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau.

Yn ystod mis Hydref 2024 ymwelodd arolygwyr â 10 coleg addysg bellach (saith gyda darpariaeth prentisiaethau yn ogystal â darpariaeth addysg bellach) a dau ddarparwr brentisiaethau. Cynhaliom gyfarfodydd gyda rheolwyr a staff, grwpiau ffocws gyda staff sydd wedi mynychu hyfforddiant, tiwtoriaid Cymraeg Gwaith a siarad â myfyrwyr. Cynhaliom dri arolwg dienw ar-lein i reolwyr a swyddogion Cymraeg, cydlynwyr a thiwtoriaid Cymraeg Gwaith a llysgenhadon myfyrwyr addysg bellach. Arsylwom sesiynau o'r tri math o ddarpariaeth wyneb yn wyneb ac yn rhithiol. Cynhaliom gyfarfodydd gyda rheolwyr a swyddogion y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Ystyriom dri math o hyfforddiant sef, hyfforddiant e-ddysgu, hyfforddiant Sgiliaith a'r cynllun Cymraeg Gwaith Addysg Bellach. Gwerthusom safon yr addysgu a hyfforddiant a'r effaith ar ymarferwyr ac ar niferoedd y myfyrwyr a phrentisiaid sydd yn defnyddio'r Gymraeg ar eu cyrsiau. Edrychom ar yr arweiniad strategol a chefnogaeth ymarferol sydd ar gael i golegau a darparwyr gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Ystyriom unrhyw ffactorau sy'n rhwystro neu alluogi llwyddiant ac rydym yn cynnig argymhellion ar gyfer gwella.

Mae'r adroddiad yn cynnwys cipluniau ac astudiaethau achos o arfer effeithiol. Gobeithiwn y byddant yn ddefnyddiol i golegau a darparwyr prentisiaethau wrth iddynt fireinio a datblygu eu dulliau o hybu'r Gymraeg yn eu sefydliadau i sicrhau bod staff addysgu yn gwneud cynnydd ar eu taith iaith ar hyd y continwwm ieithyddol a datblygu eu haddysgeg ddwyieithog yn llwyddiannus. Hyderwn y bydd yr adroddiad hwn yn cyfrannu at drafodaethau proffesiynol a datblygiadau pellach o ran cynyddu medrau iaith ac addysgeg ymarferwyr fydd yn hyderus yn eu gallu i addysgu, mentora ac asesu yn ddwyieithog.

Yn adran 1, rydym yn ystyried yr arweiniad strategol a chefnogaeth ymarferol i golegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau gan gynnwys rôl cynlluniau gweithredu yn y broses o dargedu a gwerthuso hyfforddiant.

Yn adran 2, rydym yn gwerthuso'r cynlluniau hyfforddiant unigol sef sesiynau e-ddysgu, darpariaeth Sgiliaith a chynllun Cymraeg Gwaith addysg bellach gan gynnwys gwerthuso effaith yr hyfforddiant.

Yn adran 3, rydym yn dadansoddi allbynnau a data i drafod effaith y cynlluniau'r hyfforddiant ar allu ieithyddol y gweithlu a nifer y myfyrwyr a phrentisiaid sy'n defnyddio'r

Gymraeg yn eu hastudiaethau i gynnig cyd-destun ehangach.

Yn adran 4, amlinellwn y prif rwystrau i lwyddiant y cynlluniau hyfforddi.

Yn adran 5, rydym yn cynnwys enghreifftiau o'r arfer fwyaf effeithiol welom sydd yn cynnig modelau posib at y dyfodol.

## Cefndir

Mae strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr yn cyfeirio at nod allweddol ar gyfer addysg ôl-orfodol sef:

*Datblygu darpariaeth addysg ôl-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle.*

Yn 2019 cyhoeddwyd Tuag at Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr – Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Cyn hynny roedd ffocws y Coleg ar addysg uwch yn bennaf. Mae'r cynllun yn nodi elfennau sy'n hanfodol i lwyddiant y strategaeth hon:

- Profiad y Dysgwr
- Capasiti Staffio
- Darpariaeth
- Adnoddau
- Asesu a Chymwysterau
- Ymwneud â Chyflogwyr

Mae 'Capasiti' Staffio yn berthnasol i'r adroddiad hwn ac mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys dau nod:


- *'sicrhau bod yr holl staff sydd â sgiliau yn y Gymraeg yn cael cyfle i ddatblygu'r sgiliau hyn ac i'w defnyddio mewn cyd-destun addysgol a chymdeithasol gyda dysgwyr. Cefnogi staff sydd am ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg'*
- *'sicrhau bod gan pob pwnc sy'n cael ei flaenoriaethu ar gyfer datblygu ddigon o staff dwyieithog i ddysgu ledled Cymru'*

Datblygwyd y gwaith hwn ymhellach pan lansiwyd y Cynllun Gweireiddio ar gyfer staff y sector ôl-16 gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2021:

*Mae sicrhau carfan ddigonol o staff i gefnogi dysgwyr yn elfen allweddol o Gynllun Gweithredu'r Coleg ar gyfer y sector. Bydd cynlluniau llwyddiannus a gyniwyd yn flaenorol yn parhau o dan ymbarél y Cynllun Gwreiddio.*

Gweledigaeth y cynllun yw galluogi pob aelod o staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg beth bynnag yw eu lefel iaith bresennol a chyfrannu at addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Defnyddir y Model Datblygu Sgiliau (y pyramid isod) i gynllunio hyfforddiant a chefnogi ymarferwyr i ddatblygu eu medrau iaith.




Mae'r cynllun yn cynnwys elfennau amrywiol. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar werthuso effeithlonrwydd cynlluniau:

- e-ddysgu
- Sgiliaith
- Cymraeg Gwaith Addysg Bellach

## Argymhellion

**Dylai'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol:**

A1 Finiogi'i arweiniad a her i golegau a darparwyr prentisiaethau i gynyddu lefelau iaith ymarferwyr a'r cynnig i fyfyrwyr a phrentisiaid yn unol â'r pyramid, yn enwedig ar y lefelau uchaf

A2 Gweithio gyda phartneriaid perthnasol i ymestyn cynnig Sgiliaith i siaradwyr Cymraeg  trwy greu hyfforddiant addysgeg ddwyieithog ddwys sy'n arwain at gymhwyster proffesiynol cydnabyddedig

A3 Cydweithio yn strategol â cholegau, darparwyr prentisiaethau a phartneriaid perthnasol eraill i brif ffrydio mentrau arloesol i gydnabod gwerth y Gymraeg fel sgìl ychwanegol sy'n cael ei gydnabod yn ymarferol ac yn ariannol

A4 Cydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i sicrhau bod darpariaeth Cymraeg Gwaith i ymarferwyr yn gyson â safonau'r sector Dysgu Cymraeg

**Dylai colegau a darparwyr prentisiaethau:**

A5 Gydweithio â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gysoni'r gefnogaeth a goresgyn y rhwystrau i ymarferwyr fynychu hyfforddiant yn rheolaidd

A6 Mireinio eu cynnig datblygiad proffesiynol i gynyddu medrau iaith Cymraeg ac addysgeg ddwyieithog ymarferwyr ar lefelau uchaf y pyramid

**Dylai Llywodraeth Cymru a Medr:**

A7 Gydweithio â r sectorau addysg bellach a phrentisiaethau i adolygu a chysoni'r adrodd ar gategorïau iaith darpariaeth

## Arweiniad strategol a chefnogaeth ymarferol i ddarparwyr

### Arweiniad i golegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau

Mae swyddogion y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cyfarfod yn rheolaidd â cholegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau i drafod eu cynnydd yn erbyn targedau yn eu cynlluniau gweithredu. Pwrpas y cynlluniau gweithredu hyn yw rhoi'r Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg ar waith yn y sefydliadau gan gytuno ar allbynnau a'r effaith mwyaf effeithiol o'r cyllid a roddir iddynt gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg gan eu staff, eu myfyrwyr a phrentisiaid.

Mae'r cynlluniau gweithredu blynyddol hyn yn cynnwys targedau mewn meysydd amrywiol gan gynnwys cynllunio, staffio a darpariaeth. Er enghraifft, mae'r Coleg Cymraeg yn ddisgwyl i golegau a darparwyr nodi eu targedau data LLWR (categorïau ieithyddol o ran faint o ddefnydd o'r Gymraeg gaiff ei wneud yn ystod y broses addysgu ac asesu)[2] gan fabwysiadau egwyddorion y pyramid iaith isod ar draws cyrsiau eu sefydliad.




Gosodir targedau meintiol ar gyfer darpariaeth. Er enghraifft, roedd colegau yn gosod targed i sefydlu darpariaeth ar lefelau a chategorïau iaith penodol mewn pynciau sydd yn feysydd pwnc blaenoriaeth, gan gynnwys cyrsiau fel iechyd a gofal, gofal plant, gwasanaethau cyhoeddus, amaeth/gwyddor anifeiliaid a chwaraeon.

O ran staffio, gwelir targedau sy'n gosod nod i'r colegau hyrwyddo cyfleoedd a recriwtio staff i elwa o'r cynllun Cymraeg Gwaith Addysg Bellach (mewn cyd-destun coleg addysg bellach) neu i ymuno â Rhaglen Datblygu Staff Cenedlaethol Sgiliaith.

[2] LLWR (Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru) yw system casglu data Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant ôl-16

Roedd llawer o golegau a darparwyr prentisiaethau, sef 21 allan o 26 ymateb mewn holiadur i reolwyr a swyddogion y Gymraeg, yn datgan eu bod yn cydweithio’n strategol â’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynyddu ymwybyddiaeth a defnydd o’r Gymraeg o fewn eu sefydliadau. Roedd y rhan fwyaf (24 allan o 26 ymateb) o’r farn bod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnig arweiniad strategol. Roedd mwyafrif ohonynt (17 allan o 26 ymateb) yn teimlo eu bod yn atebol i’r Coleg o ran allbynnau eu gwaith.

Yn ystod ymweliadau, roedd y rhan fwyaf o reolwyr yn canmol agwedd swyddogion y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a’u parodrwydd i drafod a chefnogi gan bwysleisio natur gadarnhaol y berthynas waith rhyngddynt gyda’r mwyafrif ohonynt yn pwysleisio natur anffurfiol y berthynas. Er hynny, yn ystod ymweliadau roedd llawer yn datgan yn gadarn mai nhw fel sefydliadau sy’n gyrru eu strategaethau Cymraeg yn eu blaen ac nid oes arweiniad strategol clir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol o ran y cynlluniau hyfforddiant.

### Cymraeg i bawb

Mae Coleg Caerdydd a’r Fro (CAVC) yn meddu ar weledigaeth o ran y Gymraeg dan yr enw ‘Cymraeg i bawb’. Cynigir ystod eang o gyfleoedd i staff ddysgu trwy wersi ffurfiol ac i ymarfer eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol, er enghraifft sesiynau cerddoriaeth a chrefftau. Mae hyn yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar nifer y staff sy’n dysgu’r iaith sydd wedi cynyddu’n sylweddol.

Yn ystod y gwaith ar yr adroddiad hwn gwnaeth arolygwyr gynnal cyfarfodydd gyda rheolwyr a staff perthnasol, cynnal grwpiau ffocws amrywiol a chraffu ar ddogfennaeth helaeth. Ar y cyfan, o ystyried yr holl dystiolaeth a gasglwyd, nid yw’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn craffu’n ddigon manwl ar dargedau a thystiolaeth ac nid oes diwylliant priodol o herio a chwestiynu penderfyniadau’r colegau a darparwyr. Mewn ymateb i holiadur, er i lawer deimlo bod nod Cymraeg Gwaith yn glir iddynt, sef 18 allan o’r 25 a ymatebwyd i'r cwestiwn hwn, tua hanner yn unig o diwtoriaid a chydlynwyr Cymraeg Gwaith (13 allan o 26) oedd yn teimlo bod ganddynt gyfarwyddiadau a chanllawiau clir ynglŷn â sut i gynnal a gweithredu’r cynllun yn llwyddiannus.

Mae’r colegau a darparwyr eu hunain sy’n gyfrifol am fesur effaith hyfforddiant o ran niferoedd a chynnydd yn y dysgwyr sy’n astudio yn rhannol neu’n gyfan gwbl yn y Gymraeg. Nid oes trefniadau penodol gan y Coleg Cymraeg ar gyfer cyflawni hyn.

Nid yw’r Coleg Cymraeg yn cyflawni swyddogaeth sicrhau ansawdd o ran cyrsiau hyfforddiant. Mae colegau unigol yn sicrhau ansawdd y cyrsiau hyn. O ganlyniad, colegau sydd ag ymagweddau mwy cadarnhaol tuag at y Gymraeg ac yn meddu ar brosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella effeithiol sydd yn llwyddo orau i ddatblygu medrau iaith ac addysgeg ddwyieithog eu staff. Mewn darparwyr lle nad yw’r weledigaeth a’r ymagweddau mor glir, nid yw hyfforddiant yn cael ei gynllunio yn ddigon strategol. Mewn ychydig iawn o ddarparwyr nid oes prosesau bwriadus wedi’u sefydlu i fonitro effeithiolrwydd cyrsiau hyfforddiant ar ymarferion y gweithlu. At ei gilydd, mae trefniadau blaengynllunio, sicrhau ansawdd a monitro effaith hyfforddiant yn anghyson ar draws darparwyr ac yn genedlaethol.

### Cynllunio ieithyddol a datblygu’r gweithlu

Mae pob aelod staff, gan gynnwys darlithwyr, yng Ngrŵp Llandrillo Menai (GLlM) yn cwblhau cwrs byr mewn ymwybyddiaeth iaith ar dechrau eu gyrfa yno. Mae 73 o ddarlithwyr yn cyflawni hyn yn ystod 2024-25. Wrth ystyried yr amser ychwanegol i baratoi gwersi ac adnoddau dwyieithog, mae GLlM yn cynnig pwysoliad gwaith o 1.15 awr am bob awr o addysgu i ddarlithwyr sy’n addysgu’n ddwyieithog.

Mae’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn darparu cyfleoedd buddiol i rannu arferion da, er enghraifft mewn cyfarfodydd y bwrdd strategol ôl-16 ac mewn cynadleddau . Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oes arfer sefydlog a digon cyson o rannu arferion da yn ystod ac yn dilyn y broses o ymweliadau. Roedd mwyafrif y colegau a darparwyr yn datgan byddent yn croesawu rhagor o gyfleoedd i’w rhannu. Mae rhannu arferion da yn digwydd ar ei orau mewn grwpiau o golegau sydd wedi sefydlu perthynas â’i gilydd yn annibynnol.

## Y cynlluniau hyfforddiant

### Sesiynau e-ddysgu

Dechreuwyd y sesiynau hyn wrth i anghenion addysgol a thechnegol staff addysgu newid yn sgil y pandemig. Daeth yn amlwg wrth drafod gyda staff yn y sectorau addysg bellach a phrentisiaethau ac mewn paneli pwnc y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, nad oedd llawer o ymarferwyr yn ymwybodol o’r adnoddau digidol oedd ar gael iddynt. O ganlyniad, canolbwyntiwyd yn wreiddiol ar godi ymwybyddiaeth ynglŷn â sut i ddefnyddio Porth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol , sef llyfrgell ar-lein ar gyfer adnoddau addysgu digidol Cymraeg a dwyieithog a Hwb. Arweiniodd hyn at gynhyrchu teclyn iaith i ymarferwyr sy’n cynnwys yr elfennau a ddisgrifir isod.

Roedd y sesiynau’n dangos i ymarferwyr yr holl adnoddau defnyddiol sydd ar gael iddynt gan gynnwys apiau amrywiol fel offer prawf ddarllen a chyfieithu. Roeddent yn dysgu sut i fewnosod acenion mewn geiriau Cymraeg. Roeddent hefyd yn dysgu’n fuddiol am dechnegau defnyddiol fel sut i ddefnyddio is-deitlau a chyflwyno’n ddwyieithog trwy hollti’r sgrin.

Mae’r ddarpariaeth yn parhau i esblygu trwy ymgynghori a thrafod yn fuddiol gydag ymarferwyr. Defnyddir canlyniadau holiaduron ôl-gwrs yn effeithiol i lywio natur y ddarpariaeth at y dyfodol.  O ganlyniad, darperir sesiynau amrywiol fel hyfforddi’r hyfforddwyr yn ogystal â sesiynau ar ddeallusrwydd artiffisial i gefnogi cynyddu defnydd o’r Gymraeg.. Mae llais a dyheadau ymarferwyr wedi bod yn allweddol trwy gydol yr esblygiad hwn, er enghraifft roedd adborth y panel pwnc iechyd a gofal dan ofal swyddog y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ddylanwadol wrth greu’r teclyn iaith ac fe’i haddaswyd yn sgil ei sylwadau.

Cynhelir sesiynau ar lein ac wyneb yn wyneb gan yr arbenigwr e-ddysgu. Mae’r

ddarpariaeth yn hyblyg o ran amseroedd trwy gynnig sesiynau cynnar am wyth y bore a sesiynau fin nos pan fo angen. Cynigir sesiynau 'galw heibio' agored ar-lein yn ystod amseroedd cinio sydd yn boblogaidd gyda staff. Golyga hyn oll fod mwy o staff yn gallu manteisio ar y ddarpariaeth a gwybodaeth yr arbenigwr.

Ariennir y prosiect e-ddysgu hwn gan Lywodraeth Cymru yn dilyn cais am grant gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Gwerth y grant ar gyfer 2024-25 yw £50,000. Mae'r cais yn nodi amcanion y gwaith gyda thargedau meintiol am y flwyddyn ganlynol yn briodol. Er enghraifft, yn ystod 2024-25 yn ogystal â chynnig sesiynau amrywiol i staff yn y sectorau perthnasol, cynhelir ymchwil ar ddeallusrwydd artiffisial i werthuso yr hyn sydd ar gael a pha mor ddefnyddiol a dibynadwy ydyw i greu adnoddau dwyieithog. Cynhelir cynhadledd hefyd ar ddefnyddio technoleg ddigidol a dwyieithrwydd i staff yn y sectorau. Cyflwynir adroddiad i Lywodraeth Cymru i fesur cynnydd yn erbyn targedau ac allbynnau'r gwaith ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Er enghraifft, adroddwyd ym mis Mawrth 2024 ar brosiect adnoddau digidol yn y maes blaenoriaeth gwasanaethau cyhoeddus. Fel rhan o'r gwaith, adnabuwyd a chyfieithwyd adnoddau perthnasol i gyd-fynd ag unedau mewn manyleb cymhwyster BTEC lefel 3 ac fe'u cynhwyswyd ar restr chware HWB.

### Effaith y ddarpariaeth e-ddysgu

Yn ystod ymweliadau roedd ymateb bron pawb ar draws y sectorau addysg bellach a phrentisiaethau sydd wedi mynychu un o'r sesiynau yn hynod gadarnhaol. Roedd y colegau a darparwyr yn adrodd bod galw cynyddol am ragor o sesiynau gan staff ac mae llawer sydd wedi bod ynddynt yn datgan eu bod wedi'u hysbrydoli i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu gwaith gyda myfyrwyr a phrentisiaid. Yn ystod y sesiynau, roedd mynychwyr yn gwrando'n astud ac yn ymgysylltu'n llwyr â'r cynnwys.

Roedd cyflymder y sesiynau ar lein yn sionc ond roedd yr amser i ymarferwyr roi'r hyn maent wedi ei weld ar waith yn ystod y sesiynau yn brin. Roedd yr arbenigwr yn cynnig yn frwdfrydig i fynychwyr gysylltu os ydynt yn dymuno rhagor o gymorth. Fodd bynnag, nid oedd y rhai heb naill ai'r cyfle neu'r hyder i ymarfer yn ystod sesiynau ar lein yn elwa'n llawn ohonynt bob tro. Roedd y sesiynau wyneb yn wyneb yn cynnig mwy o gyfleoedd gwerthfawr i arbrofi dan oruchwyliaeth yr arbenigwr.


Mae'r swyddogion addysg bellach a phrentisiaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweithio'n effeithiol gyda'r sectorau i fesur a thrafod anghenion ac i annog sefydliadau i ymgysylltu â'r hyfforddiant. Erbyn hyn, mae pob coleg a darparwr prentisiaethau wedi derbyn hyfforddiant perthnasol ac mae dros 550 o staff wedi mynychu sesiynau.

### Moduro ymlaen

Mae'r arbenigwr e-ddysgu'n weithgar ar draws nifer o feysydd pwnc gwahanol. Mae hyn yn fuddiol, nid yn unig o ran rhannu adnoddau ymhlith ymarferwyr ond hefyd o ran adnabod bylchau yn yr adnoddau presennol sydd ar gael yn y Gymraeg. Er enghraifft, wrth ymweld ag adran moduro mewn coleg daeth y diffyg mewn adnoddau Cymraeg addas yn y pwnc i'r amlwg a arweiniodd at gamau i newid hyn.

Mae ffigurau'r sawl sy'n defnyddio [Porth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol] yn dangos cynnydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Er enghraifft, roedd 2,557 o sesiynau unigryw ym mis Awst 2022 o gymharu â 5,195 o sesiynau unigryw ym mis Mehefin 2024.

Sesiynau Unigryw y Porth rhwng Awst 2022 a Mehefin 2024




Er yr adborth cadarnhaol iawn gan unigolion a cholegau a darparwyr, nid oedd gweithdrefnau i fesur effaith uniongyrchol y ddarpariaeth ar arferion addysgu ymarferwyr sydd wedi mynychu sesiynau.


### Y rhaglen datblygu staff cenedlaethol Sgiliaith

Nod [Rhaglen Datblygu Staff Cenedlaethol Sgiliaith] yw '*darparu hyfforddiant a chyngor ymarferol ar adnoddau ac arferion da i staff er mwyn gwella sgiliau a phrofiadau dysgwyr mewn perthynas â dwyieithrwydd'.*

Mae darpariaeth Sgiliaith, a leolir yng Ngrŵp Llandrillo Menai, wedi bodoli er 2001. Ariannwyd ei waith gan Lywodraeth Cymru hyd at fis Gorffennaf 2020 ac ers hynny gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r cytundeb tair blynedd yn dyrannu symiau blynyddol o £74,945 am y cynllun mentora a £70,000 ar gyfer y rhaglen hyfforddiant. Mae'r cytundeb rhwng y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Sgiliaith yn nodi targedau meintiol ar gyfer y gwahanol fathau o ddarpariaeth.

Gwelwyd yn ystod y gwaith maes bod y rhaglen fentora yn cynnig sesiynau unigol buddiol i ymarferwyr ar bob lefel ieithyddol gyda'r nod o'u hyfforddi'n ymarferol i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu gwaith gyda myfyrwyr a phrentisiaid.

Roedd y rhaglen hyfforddiant staff yn darparu cyngor hynod ddefnyddiol i ymarferwyr o ran hunanwerthuso eu harferion dysgu presennol . Yn ogystal, fe'i cynorthwyir i gynnwys mwy o Gymraeg sydd yn ei dro yn symud eu darpariaeth i fyny'r pyramid iaith.




Cynigir ystod o gyrsiau gwahanol, fel arfer ar-lein, gan gynnwys:

- Modiwl MA ar fethodoleg addysgu dwyieithog ( 5 niwrnod cyswllt ac astudio annibynnol)
- Cwrs Cyflwyniad i addysgu dwyieithog (cwrs deuddydd – 10 awr)
- Gweithdy ar ddylunio adnoddau dwyieithog (3 awr)
- Twlcit dwyieithrwydd i diwtoriaid (3 awr)
- Twlcit dwyieithrwydd i aseswyr (3 awr)
- Gweithdy mewnosod y Gymraeg (1.5 awr)
- Ymwybyddiaeth Iaith (yng nghyd-destun TAOR neu Cymraeg Gwaith - 2 awr ond gellir ei deilwra yn unol â gofynion y sefydliad)

Yn ystod y sesiynau uchod, roedd cyflwynwyr yn gosod cyd-destun ieithyddol a chyfreithiol y Gymraeg yn ddefnyddiol, er enghraifft trwy dynnu sylw at rôl Comisiynydd y Gymraeg a'r bolisïau megis Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr a'i oblygiadau i addysg ôl-orfodol.

Yn ystod sesiynau a arsylwyd, roedd y cyflwynwyr yn annog trafodaeth broffesiynol yn llwyddiannus ac roedd mynychwyr yn ymateb yn gadarnhaol i hyn trwy rannu eu profiadau proffesiynol mewn ffordd agored a chydweithredol. Roeddent yn myfyrio ar eu harferion presennol yn werthfawr ac yn meddwl sut gallent eu haddasu i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Er enghraifft, mewn sesiwn twlcit i aseswyr roedd mynychwyr yn adrodd sut, ers iddynt gynnwys mwy o Gymraeg yn eu gwaith, mae myfyrwyr a phrentisiaid yn fwy tebygol o ryngweithio â nhw mewn ffordd gadarnhaol ac am ddefnyddio'r iaith gyda nhw.

Roedd cyflwynwyr yn paratoi pob sesiwn yn ofalus ac er bod rhai elfennau'n gyffredin ar draws nifer o'r cyrsiau, roeddent yn llwyddo i sicrhau perthnasedd y cynnwys i'r gynulleidfa sydd yn aml o wahanol lefelau o hyfedredd yn y Gymraeg. O ganlyniad, roeddent yn enghreifftio'n grefftus sut i normaleiddio dulliau dwyieithog o annerch grwpiau cymysg o ran iaith. Fodd bynnag, ar adegau, nid oedd siaradwyr rhugl yn meddu ar gyfleoedd i drafod ac ymestyn eu haddysgeg yn llawn oherwydd natur sylfaenol y sgwrs a lefelau dealltwriaeth ieithyddol unigolion o fewn y grŵp.

Addasodd cyflwynwyr sesiynau'n effeithiol yn unol â gofynion y grwpiau oedd ganddynt wrth i themâu godi yn ystod y sesiynau. Yn yr achosion gorau, roeddent yn holi mynychwyr i ddarganfod eu hanghenion yn fedrus. Roeddent yn ymateb i'w hanghenion drwy gynnig cyngor ac awgrymiadau gwerthfawr a pherthnasol o'r ffordd y mae ymarferwyr  yn gallu addasu eu darpariaeth er mwyn diwallu anghenion ieithyddol myfyrwyr a phrentisiaid. Cyflwynent wybodaeth am wahanol elfennau o dechnoleg yn effeithiol ac yn arddangos sut mae modd ei defnyddio i gynyddu y defnydd o'r iaith.

Mae cynllun mentora Sgiliaith yn cynnig sesiynau un i un buddiol iawn o ran darparu cyngor unigol i ymarferwyr i gynllunio eu taith iaith eu hunain yn ogystal â thaith iaith eu myfyrwyr a phrentisiaid. Roedd y  mentoriaid yn meithrin perthynas waith gref ac addas yn llwyddiannus gyda'r ymarferwyr unigol gan gynnal deialog broffesiynol adeiladol ac yn argymell dulliau allai weithio gyda'u dysgwyr. Roeddent hefyd wedi cynnig cyngor ymarferol  ac amrywiol fel sut i gynyddu'r defnydd o dermau allweddol gydag ymarferwyr ar lefelau isaf y pyramid a sut i greu adnoddau dwyieithog.

### Sgiliaith ar waith

Mae Sgiliaith yn cyhoeddi cylchlythyr tymhorol ar gyfer staff Coleg Llandrillo Menai sy'n ymgorffori arferion effeithiol yn llwyddiannus. Mae hyn yn ennyn diddordeb darlithwyr ac yn gyfrwng i ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg o fewn y Grŵp ymhellach. Caiff hyn ei grynhoi i fformat PDF yn flynyddol a'i gosod ar Porth Adnoddau y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

## Effaith y ddarpariaeth Sgiliaith

Ers dechrau'r cytundeb presennol yn 2020-21 hyd at ddiwedd 2023-24, cynhaliwyd 304 o gyrsiau hyfforddi gyda 3,437 o ymarferwyr yn eu mynychu. Yn yr un cyfnod, cafodd 234 o unigolion eu mentora o 26 sefydliad gwahanol.

Mewn ymateb i holiadur, dywedodd y rhan fwyaf o reolwyr a swyddogion Cymraeg y colegau a darparwyr, sef 25 allan o 28 ymateb, eu bod yn cynnig Sgiliaith i'w staff. Roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr sydd wedi manteisio ar y ddarpariaeth yn ei chanmol ac yn teimlo ei bod wedi cael effaith cadarnhaol ar eu harferion ieithyddol. Mae'r cwrs addysgeg ddwyieithog i diwtoriaid yn rhoi cyfle gwerthfawr i ymarferwyr Cymraeg eu hiaith i ddatblygu eu gallu i addysgu yn y ddwyieithog. Cynhelir y cwrs hwn wyneb yn wyneb dros ddeuddydd oni bai i goleg neu ddarparwr prentisiaethau ofyn am gwrs rhithiol. Mae darparu mewn person yn caniatáu i'r mynychwyr wneud sesiwn meicro-addysgu ar yr ail

ddiwrnod i roi'r hyn a ddysgwyd ar waith. Roedd llawer o fynychwyr yn gwerthfawrogi'n fawr y cyfle i wneud hyn ac o'r farn bod y cwrs yn atgyfnerthu ac ymestyn eu haddysgeg ddwyieithog.

Roedd llawer o golegau a darparwyr yn teimlo bod y ddarpariaeth Sgiliaith yn cynorthwyo eu staff yn fuddiol. Fodd bynnag, teimlodd ychydig nad yw'r arlwy wedi newid yn ddigon bwriadus dros y blynyddoedd gan gyfeirio at staff sydd yn cwblhau'r holl gyrsiau ond yn dal i deimlo bod angen iddynt ddatblygu eu haddysgeg ddwyieithog ymhellach. Yn ogystal, roeddent yn datgan bod y cyrsiau'n yn cael eu targedu at gynulleidfa eang a bod hyn yn effeithio ar y cynnwys. Awgryment y byddai'n fwy buddiol i gynnig cyrsiau ar sail pynciau penodol i ddatblygu arbenigedd ac addysgeg ymarferwyr yn eu meysydd eu hunain.

Canmolodd myfyrwyr y modiwl MA ar fethodoleg addysgu dwyieithog  y cwrs a'r ffaith ei fod wedi ehangu eu gorwelion addysgol ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar eu harfer proffesiynol. Maent hefyd yn nodi, er bod y credydau a enillir o wneud y cwrs yn cyfrannu at radd MA lawn, byddai cwrs sy'n arwain at gymhwyster yn ddeniadol iawn fel rhan o'u dysgu proffesiynol. Mae hyn yn neges gyson ar draws darparwyr gyda gweledigaeth uchelgeisiol o ran y Gymraeg, sef bod angen cwrs cyfrwng Cymraeg, ar lefel is na chredydau gradd meistr ac sy'n ychwanegol at y cwrs addysgeg ddwyieithog, a fyddai'n datblygu addysgeg staff ac yn arwain at gymhwyster proffesiynol cydnabyddedig.

### Trochi iaith

Cynhaliwyd cwrs preswyl tridiau yng nghanolfan Glan-llyn fel rhan o brosiect y Gronfa dysgu proffesiynol i hyrwyddo dwyieithrwydd gan drochi mynychwyr mewn amgylchedd dysgu cwbl ddwyieithog. Enwebodd sefydliadau ymarferwyr oedd yn addysgu ar lefel E1 (Saesneg yn unig) i'w fynychu. Yn dilyn y cwrs preswyl, cynhaliodd tîm Sgiliaith dri chwrs i gefnogi'r ymarferwyr i fewnosod y Gymraeg yn eu dosbarthiadau nhw ar ôl dychwelyd i'w colegau. Roedd pob un ohonynt yn canmol  dulliau trochi'r cwrs preswyl a'r ffaith bod cymorth ganddynt wedyn i adeiladu ar eu hyder a brwdfrydedd newydd.

## Cymraeg Gwaith Addysg Bellach

Nod cynllun Cymraeg Gwaith addysg bellach yw datblygu medrau iaith staff y colegau fel eu bod yn gallu gwneud defnydd cynyddol o'r Gymraeg yn eu gwaith addysgu. Cyfeirir at y staff hyn fel 'dysgwyr' at ddibenion adran hon yr adroddiad. Nid yw darparwyr prentisiaethau yn rhan o'r cynllun hwn.

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cytundebu'r rhaglen Cymraeg Gwaith Addysg Uwch ac Addysg Bellach i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Nod yr adroddiad hwn yw gwerthuso effeithiolrwydd y cynllun addysg bellach yn unig. Yn ystod 2024-25, gwerth y cytundeb ar gyfer addysg bellach yw £340,378.

Mae'r cytundeb yn nodi disgwyliadau amrywiol gan gynnwys targedau a disgwyliadau megis nifer y dysgwyr (380 o ddysgwyr ar draws 11 o sefydliadau), oriau cyswllt, monitro dilyniant gwerslyfrau a defnydd o blatfform digidol y sector Dysgu Cymraeg a monitro dilyniant. Yn ogystal, mae disgwyl i'r Coleg Cymraeg sicrhau bod trefniadau sicrhau ansawdd addysgu a threfniadau arsylwi yn unol â chanllawiau a gweithdrefnau ansawdd ac arsylwi'r Ganolfan Genedlaethol.

Mae'r trefniant cytundebol hwn yn wahanol i gynlluniau Cymraeg Gwaith eraill sy'n defnyddio darparwyr Dysgu Cymraeg, sydd eisoes dan gyfundrefnau cyllidol a sicrhau ansawdd y Ganolfan Genedlaethol, i addysgu ar y cyrsiau.

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn defnyddio'r rhan fwyaf o'r cyllid i ariannu tiwtoriaid ym mhob un o'r colegau addysg bellach. Ariennir nhw ar sail maint y colegau unigol trwy fandiau gwahanol sy'n penderfynu swm y targedau o ran recriwtio staff i fynychu'r cyrsiau. Mae colegau'n gallu symud rhwng y bandiau ac mae swyddogion y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cydweithio'n addas â nhw i hwyluso hyn pan fo angen. Nid yw'r cyllid yn ddigon i bob coleg dalu costau tiwtor llawn amser. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid ar draws y colegau yn gweithio yn ffracsiynol ar y cynllun, weithiau gyda dyletswyddau addysgol eraill o fewn eu sefydliadau.

Mewn achosion eraill, fel yn achos Grŵp Llandrillo Menai, roedd y coleg yn buddsoddi mwy o arian er mwyn cyflogi mwy nag un tiwtor i ddiwallu'r galw am gyrsiau.

## Darpariaeth Cymraeg Gwaith

Defnyddir cyrsiau sector Cymraeg i oedolion neu Dysgu Cymraeg trwy gynnig cyrsiau ar y lefelau dysgu gwahanol.

Mae'r cynllun yn cael ei dargedu'n bennaf at staff addysgu o fewn meysydd blaenoriaeth, er bod hyn yn anghyson ar draws y colegau. Mae'r targedau cytundebol a roddir i'r colegau unigol ar sail niferoedd yn unig. O ganlyniad, nid oes digon o ffocws ar symud dysgwyr ymlaen ar hyd y continwwm iaith i lefelau ôl-ganolradd ac maent yn dueddol o ganolbwyntio ar gadw dysgwyr ar draul sicrhau eu bod yn symud ymlaen a gwneud y cynnydd gorau posib. Yn ôl ffigurau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar ddechrau 2024-25, roedd chwech dosbarth allan o 94 ar lefel uwch, sef y lefel gall dysgwyr gael eu hystyried yn lled rugl, gyda niferoedd yn amrywio o un i bedwar fesul dosbarth.

Mae niferoedd ar y cyrsiau a gynhelir wyneb yn wyneb wedi codi dros gyfnod o dair blynedd o 239 o ddysgwyr yn ystod 2020-21 i 394 o ddysgwyr yn ystod 2023-24. Ar gyfartaledd, mae llawer yn cwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus. Mae ffigurau dilyniant fesul coleg yn cael eu defnyddio gan y swyddog Cymraeg Gwaith wrth drafod â cholegau unigol. Fodd bynnag, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cydnabod bod angen cysoni'r dulliau monitro a chofnodi cyfraddau dilyniant. Yn ogystal, nid oes system ddibynadwy yn bodoli i fesur pa effaith mae'r cynllun yn ei gael yn y gweithle.

Mae'r colegau hefyd yn cynnig opsiwn amgen, sef hunan astudio, i ddysgwyr. Cofrestrodd dros 200 o staff ar y cyrsiau hyn yn ystod 2023-24 ond 14% yn unig a gwblhaodd 5 uned o'r cwrs sef y trothwy i aros yn ddysgwr gweithredol erbyn diwedd y flwyddyn.

Yn unol â gofynion y cyrsiau, mae dysgwyr i fod i ddilyn cyrsiau sy'n gyfwerth â 120 awr. Canran fach iawn o'r cyrsiau sy'n cyflawni'r oriau hyn ar draws y colegau. Mae rheolau'r sector Dysgu Cymraeg yn glir ynglŷn ag oriau cyswllt dan arweiniad, sef dylent fod o leiaf 80% o'r oriau cyfanswm. Nid yw hyn yn cael ei weithredu'n gyson ar draws y colegau ac mae diffiniad o'r oriau cefnogi dysgwyr (dylai fod hyd at 20% yn unig o'r cyfanswm oriau) yn amrywio o goleg i goleg. Mae llawer ohonynt yn cynnal sesiynau dwys ac undydd i gynyddu'r oriau cefnogi. Fodd bynnag, er nad yw'r oriau hyn yn cael eu cofnodi ar system ddata ganolog y Ganolfan Genedlaethol, gwelir o'r tabl isod mai ychydig iawn o ddysgwyr sy'n debygol o gyrraedd y trothwy o 120 awr sef cod rhaglen ddysgu 8003.

### Nifer y dysgwyr ar bob rhaglen ddysgu: fesul dwyster

| Blwyddyn Academaidd | 8003 | 8004 | 8005 | 8007 | Cyf |
|---|---|---|---|---|---|
| 2021 | 3 | 14 | 163 | 59 | 239 |
| 2022 | 10 | 4 | 163 | 149 | 326 |
| 2023 | 18 | 40 | 237 | 99 | 394 |

| Cod Rhaglen Ddysgu | Cyfanswm Oriau Dysgu |
|---|---|
| 8001 | 260-300 awr |
| 8002 | 170-259 awr |
| **8003** | **110-169 awr** |
| 8004 | 80-109 awr |
| 8005 | 50-79 awr |
| 8007 | <50 awr |

Ffynhonnell: Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

At ei gilydd, nid yw data wedi cael eu defnyddio'n ddigon strategol i flaengynllunio darpariaeth a sicrhau cynnydd ym medrau iaith dysgwyr, yn lleol nac yn genedlaethol.

### Addysgu a Dysgu

Mae'r cynllun Cymraeg Gwaith yn rhoi cyfleoedd buddiol i staff ddysgu'r iaith gyda thiwtoriaid brwdfrydig sydd am eu helpu i wella a chynyddu eu medrau iaith. Mewn llawer o wersi, roedd yr addysgu'n effeithiol ac roedd dysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn. Yn y gwersi hyn, roedd tiwtoriaid yn defnyddio'r iaith darged yn bwrpasol gan wneud defnydd da o fodelu, ailadrodd ac enghreifftio. Roeddent yn strwythuro ac amseru gwersi'n effeithlon ac yn holi dysgwyr yn fedrus i ymestyn eu hatebion a hyder wrth gyfathrebu ar lafar. O ganlyniad, roedd llawer o ddysgwyr yn dwyn dysgu blaenorol i gof yn llwyddiannus ac yn datblygu eu medrau yn gynyddol hyderus.

Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi nid oedd yr addysgeg yn arddel dulliau addysgu llwyddiannus y sector Dysgu Cymraeg yn briodol. Roedd hyn yn ei dro yn cael effaith negyddol ar safonau'r dysgwyr.

Mae modd cysylltu hyn, i raddau, ag anghysondeb yn yr hyfforddiant a gynigir i diwtoriaid. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnal diwrnod 'cwrdd i ffwrdd' blynyddol i

diwtoriaid Cymraeg Gwaith addysg bellach ac yn ôl y tiwtoriaid maent yn elwa o’r cyfle i drafod a rhannu arferion da. Mae tiwtoriaid Cymraeg Gwaith o’r colegau gwahanol hefyd yn manteisio ar gyfleoedd i rannu arfer dda wrth iddynt gyfarfod mewn clystyrau daearyddol. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o diwtoriaid sy’n derbyn hyfforddiant trwy’r sector Dysgu Cymraeg ac nid oes gan leiafrif fynediad i’r Academi Cymraeg Gwaith sef porth hyfforddiant cenedlaethol y sector.

Mae anghysondeb hefyd o ran cyfundrefnau arsylwi’r addysgu a’r dysgu ar draws y colegau. Roedd enghreifftiau o diwtoriaid Cymraeg Gwaith yn cael eu harsylwi gan staff nad ydynt yn diwtoriaid iaith, ac o ganlyniad nid ydynt yn derbyn unrhyw fewnbwn arbenigol ar sut i fireinio a gwella eu methodoleg addysgu iaith.

Ar y cyfan, mae colegau sydd a darparwr Dysgu Cymraeg o fewn yr un sefydliad neu sydd yn cynnal perthynas gydag un o ddarparwyr Dysgu Cymraeg eisoes naill ai ar lefel coleg neu diwtor unigol, yn llwyddo i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth a chyfleoedd hyfforddiant priodol i diwtoriaid.

Mae swyddogion Cymraeg Gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweithio yn ddiwyd i gynnal ac ymestyn y rhaglen. Mae ffrwyth eu llafur yn glir o ran cynnydd yn y niferoedd o ddysgwyr a’r ffaith bod y colegau erbyn hyn wedi ymsefydlu’r ddarpariaeth yn llwyr yn eu sefydliadau. Mae’r ffaith bod colegau yn cyflogi eu tiwtoriaid eu hunain yn dystiolaeth o hynny. Fodd bynnag, er bod perchnogaeth y colegau o’r cynllun Cymraeg Gwaith yn fanteisiol i raddau, mewn rhai achosion mae hyn yn golygu nad yw’r cwricwlwm a ddarperir yn addas i gwrdd ag anghenion dysgwyr ac nid yw ychydig o diwtoriaid yn meddu ar y medrau priodol i addysgu Cymraeg Gwaith. Yn ogystal, nid yw tiwtoriaid yn gyffredinol yn derbyn cyfleoedd dysgu proffesiynol priodol a chyfartal â thiwtoriaid eraill y sector Dysgu Cymraeg.

# Mesur traweffaith

## Effaith y cynlluniau hyfforddi

Mae cannoedd o staff y sectorau addysg bellach a phrentisiaethau wedi cyfranogi yn y cynlluniau hyfforddi. Mae dros 550 wedi mynychu sesiynau e-ddysgu, mae mwy na 3,500 wedi manteisio ar raglenni Sgiliaith dros y tair blynedd diwethaf ac erbyn hyn mae bron 400 yn cofrestru ar gyrsiau Cymraeg Gwaith bob blwyddyn[3]. Er bydd nifer anhysbys o staff yn mynychu mwy nag un math o ddarpariaeth ac yn dilyn sawl cwrs gwahanol yn ystod y cyfnod hwnnw, mae'n deg dweud bod nifer sylweddol o unigolion wedi cael mynediad i'r hyfforddiant.

Nod y cynllun gwreiddio yw cynyddu medrau iaith staff a datblygu eu haddysgeg ddwyieithog fel bydd yn bosibl cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg gyda myfyrwyr a phrentisiaid. Mae **https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/documents-cym/about-2/workforce-statistics-cym/annual-statistics-digest-cym/current-1/1244-adroddiad-ystadegau-blynyddol-y-gweithlu-addysg-2024/file**Adroddiad Ystadegau Blynyddol y Gweithlu Addysg yn dangos niferoedd a chyfrannau o unigolion sy'n gweithio yn y sectorau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith a'u gallu i siarad a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn seiliedig ar ruglder hunan-ddatganedig y cofrestryddion yn y Gymraeg, hyfforddiant maent wedi'i dderbyn i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg, gwaith presennol neu yn y gorffennol yn y Gymraeg, neu hyder i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

### Athrawon addysg bellach

Yn ôl Adroddiad Ystadegol y Gweithlu Addysg, roedd 6,756 o athrawon wedi'u cofrestru mewn Addysg Bellach yn 2020. Yn 2024, roedd 6,702 o athrawon addysg bellach wedi'u cofrestru.

Mae nifer a chyfran yr athrawon addysg bellach wedi'u cofrestru yn ôl eu gallu i siarad Cymraeg wedi cynyddu o 1,095 unigolyn (16.2%) yn 2020 i 1,204 unigolyn (18%) yn 2024.

Yn 2020, roedd 764 (11.3%) wedi'u cofrestru yn ôl y gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn 2020 ac roedd hyn yn cynyddu i 860 o unigolion (12.8%) erbyn 2024.

### Gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach

Yn 2020, roedd cyfanswm o 5,407 gweithiwr cymorth dysgu ac roedd hyn wedi cynyddu i 6,212 yn 2024.

Mae nifer a chyfran y gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach wedi'u cofrestru yn ôl eu gallu i siarad Cymraeg wedi cynyddu o 814 unigolyn (15.1%) yn 2020 i 975 unigolyn (15.7%) erbyn 2024.

[3] Ffynonellau'r ffigurau: e-ddysgu gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Sgiliaith gan Sgiliaith a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Cymraeg Gwaith gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Yn 2020, roedd 563 (10.4%) wedi’u cofrestru yn ôl y gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg ac roedd hyn wedi cynyddu i 690 unigolyn (11.1%) erbyn 2024.

### Ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith

Yn 2020, roedd 3,540 o ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith. Yn 2024, roedd 3,533 o ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith.

Mae nifer a chyfran yr ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith wedi’u cofrestru yn ôl eu gallu i siarad Cymraeg wedi cynyddu o 456 (12.9%) i 558 (15.8%) erbyn 2024.

Mae nifer yr ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith wedi’u cofrestru yn ôl y gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu o 314(8.9%) yn 2020 i 425 (12%) erbyn 2024.

### Y gweithlu cyfan


At ei gilydd, ers 2020 gallwn weld twf graddol yng nghyfran y gweithlu addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith sydd yn meddu ar y gallu hunan-ddatganedig i ddefnyddio ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, nid oes data yn cysylltu hyfforddiant yn uniongyrchol â’r twf yn nifer y siaradwyr yn y gweithlu a’r nifer sy’n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae mesur effaith y cynlluniau hyfforddiant ar nifer y myfyrwyr a phrentisiaid sy’n dewis defnyddio’r Gymraeg ar eu cyrsiau’n fwy anodd i ddilysu.

Mae’r ffigurau isod yn dangos twf sylweddol o ran gweithgareddau categori B3 sef ychydig o ddysgu cyfrwng Gymraeg ond nid mewn categorïau eraill.

Diffinnir B3 yn ôl y meini prawf isod gan y cofnod dysgu gydol oes Cymru (LLWR):C (LLWR) (Llywodraeth Cymru, 2018).


- *Dylid defnyddio B3 lle nad oes yr un o’r asesiadau yn y Gymraeg ond lle mae ychydig o’r sgwrsio/addysgu yn y Gymraeg.*
- *Angen cyswllt yn y Gymraeg rhwng yr asesydd/darlithydd/cymhorthydd a'r dysgwr.*
- *Bydd tystiolaeth y portffolio yn Saesneg a phob asesiad wedi ei gwblhau yn Saesneg.*
- *Pan nad yw’r tiwtor yn siarad Cymraeg, gall y dysgwr dderbyn gweithgareddau priodol i’w cwblhau yn y Gymraeg.*
- *Os oes gan y dysgwr rai sgiliau Cymraeg ond yn gyndyn o gwblhau asesiadau neu ran o’u dysgu yn y Gymraeg; dylid annog y dysgwr i gymryd rhan trwy gynnwys elfennau Cymraeg yn y profiad dysgu.*
- *Nid yw ychydig ddefnydd o’r Gymraeg yn achlysurol yn ddigon i gofnodi’r dysgu fel B3.*

## Gweithgareddau dysgu yn ôl cyfrwng y ddarpariaeth mewn addysg bellach




| | 2022/23 | 2021/22 | 2020/21 | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Saesneg yn unig | 84.4% | 85.5% | 87.5% | 90.0% | 89.6% |
| Ychydig o ddysgu trwy Gymraeg | 11.0% | 9.7% | 6.9% | 5.1% | 5.6% |
| Swm sylweddol o ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg | 1.5% | 1.1% | 0.8% | 1.0% | 1.3% |
| Dwyieithog | 2.4% | 2.7% | 3.1% | 2.8% | 2.1% |
| Cymraeg yn unig | 0.1% | 0.1% | 0.3% | 0.3% | 0.3% |
| Uned Dysgu'r Gymraeg | 0.6% | 0.9% | 1.3% | 0.7% | 1.1% |

## Gweithgareddau dysgu yn ôl cyfrwng y ddarpariaeth mewn dysgu yn seiliedig ar waith




| | 2022/23 | 2021/22 | 2020/21 | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Saesneg yn unig | 70.1% | 76.3% | 82.5% | 87.0% | 88.1% |
| Ychydig o ddysgu trwy Gymraeg | 25.5% | 19.5% | 13.3% | 9.3% | 8.3% |
| Swm sylweddol o ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg | 0.5% | 0.6% | 0.4% | 0.3% | 0.3% |
| Dwyieithog | 3.1% | 2.9% | 3.0% | 2.9% | 2.9% |
| Cymraeg yn unig | 0.6% | 0.7% | 0.8% | 0.5% | 0.4% |
| Uned Dysgu'r Gymraeg | 0.2% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |

Dylid nodi bod amheuaeth o hyd am ddibynadwyedd ffigurau LLWR oherwydd y ffordd mae colegau a darparwyr yn categoreiddio eu darpariaeth eu hunain ar adegau. Nid yw hyn wedi newid llawer ers ein hadroddiad Addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach yn 2017.

Roedd ychydig o golegau'n honni bod darlithwyr unigol yn tan adrodd faint o'r Gymraeg a ddefnyddir gan gofnodi darpariaeth B2 (cyfran helaeth o ddysgu cyfrwng Cymraeg) fel B3 (ychydig o ddefnydd). Mae nifer o ymarferwyr yn y sector o'r farn bod hyn yn amlygu'r angen i greu maes cofnodi rhwng B2 a B3. Ffactor arall yw'r ffaith bod sefydliadau yn gorfod seilio eu gwybodaeth am lefel iaith myfyrwyr a phrentisiaid ar eu hunan ddatganiadau wrth iddynt ddechrau astudio ac yn ôl y sefydliadau mae nifer ohonynt yn amharod i gyfleu eu hyfedredd yn y Gymraeg yn gywir i osgoi gwneud asesiadau ynddi.

Er nad oes modd creu cysylltiad hollol bendant rhwng y cynnydd yn y categori '*ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg*' a'r cynlluniau hyfforddiant, mae'r darlun yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r adroddiad hwn, sef bod y cynlluniau'n gyffredinol yn fwy effeithiol o ran targedu staff sydd ar lefelau is y pyramid iaith.  Bydd hyn yn ei dro'n cael effaith ar fyfyrwyr a phrentisiaid ar lefelau is y pyramid. Hyd yn hyn, nid yw'r hyfforddiant yn cael effaith amlwg ar lefelau uwch y pyramid, fel y gwelir yn y gosodiad canlynol mewn adran ar ganfyddiadau arolygiadau y sector Dysgu yn y gwaith yn ein hadroddiad blynyddol 2023-24: '*Mae nifer y dysgwyr sy'n dewis cwblhau gwaith ysgrifenedig neu asesiadau yn Gymraeg yn isel o hyd.*'

At ei gilydd, mae'r cynlluniau yn cael effaith cadarnhaol ar ymarferwyr sydd yn manteisio arnynt ac maent yn adrodd yn huawdl ar sut mae cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg yn effeithio'n gadarnhaol ar eu myfyrwyr a phrentisiaid. Er enghraifft, mae enghreifftiau nodedig o ymarferwyr sydd wedi mynychu cyrsiau Cymraeg Gwaith ac wedi caffael yr Gymraeg a'i defnyddio'n llwyddiannus gyda'u myfyrwyr.  Yn galonogol, mewn ymateb i holiadur, dywedodd pob un o'r llysgenhadon addysg bellach eu bod yn ymwybodol o'r cynlluniau hyfforddi ac roedd llawer ohonynt yn gwybod pa staff sy'n dysgu ac yn hysbysu myfyrwyr eraill fel bod modd iddynt ddechrau ymgysylltu â nhw yn y Gymraeg.

### Gwerth y Gymraeg yn y Gwaith

Mae darlithwyr Coleg Gwent sy'n dilyn cyrsiau Cymraeg Gwaith yn frwdfrydig dros ddysgu'r iaith ac yn cyfleu'n glir sut mae dysgu'r Gymraeg yn effeithio a dylanwadu ar eu dysgwyr.

Mae un darlithydd sy'n gweithio mewn maes sgiliau dysgu byw annibynnol yn adrodd sut mae'n ymgysylltu â dysgwyr yn llwyddiannus trwy ddefnyddio'r Gymraeg a Makaton gyda'i gilydd.

Mae un arall sy'n darlithio mewn maes gwasanaethau cyhoeddus yn newid agweddau myfyrwyr at y Gymraeg trwy bwysleisio buddiannau siarad yr iaith wrth geisio am swyddi yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae darlithydd celfyddydau perfformio yn mynd â'i myfyrwyr i weld sioeau Cymraeg fel cyfrwng o godi ymwybyddiaeth bod diwylliant creadigol cynhenid ar gael iddynt yng Nghymru ac nad oes angen symud i Lundain i weithio yn y maes.

## Ffactorau sy’n rhwystro llwyddiant yr hyfforddiant

### Rhwystrau ymarferol: amser a ddengys

Un rhwystr oedd yn codi yn gyson iawn yw diffyg amser staff i ddilyn rhaglenni, yn arbennig cyrsiau a gynhelir yn rheolaidd fel Cymraeg Gwaith.

Mae gan bob aelod staff yn y sectorau addysg bellach a phrentisiaethau yr hawl i 30 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn flynyddol ac ar sail pro rata i staff nad ydynt yn llawn amser. Fodd bynnag, mae angen llawer mwy o oriau i gyflawni cwrs Cymraeg Gwaith 120 awr. Cwyn cyffredin llawer o staff sydd ar gyrsiau hyfforddi, a fynegwyd yn ystod y gwaith maes,  yw bod angen iddynt eu cyflawni yn ychwanegol at eu dyletswyddau arferol ac nid oes lleihad yn eu horiau addysgu neu ddyletswyddau arferol i’w galluogi i ymgymryd â’r fath hyfforddiant dwys yn llwyddiannus.

Roedd y sefyllfa ar draws yr holl sefydliadau’n amrywio ond yn gyffredinol dywedodd rheolwyr a chydlynwyr yn y rhan fwyaf ohonynt fod rhyddhau staff i fynychu cyrsiau yn gallu peri anawsterau. Nid yw rheolwyr llinell bob tro yn fodlon rhyddhau eu staff. Mae hyn wedi arwain at enghreifftiau o gynllunio’n greadigol i oresgyn y fath rwystrau fel trwy greu memorandwm rhwng rheolwyr a thiwtoriaid i osgoi hyn rhag digwydd.

#### Mewnosod y Gymraeg

Mae tîm Cymraeg Gwaith Coleg Gwent yn defnyddio memorandwm dealltwriaeth rhwng y darpar ddysgwr/aelod staff a’i reolwr. Mae’n rhaid i’r aelod staff ddatgan ba gwrs bydd yn ei ddilyn ac yn cynnwys ei amcanion o ran sut gwnaiff fewnosod ei fedrau Cymraeg newydd i’w wersi gyda myfyrwyr neu brentisiaid. Mae’n rhaid i’r rheolwr gytuno i gefnogi’r aelod staff yn ei ymgais i ddysgu a gwella ei sgiliau Cymraeg. Yn ogystal, mae’n gorfod cadarnhau bydd trafodaeth ar gynnydd yr aelod staff a’i amcanion yn ystod adolygiadau perfformiad rheoli gan nodi sut mae’r cyflogai a’r gweithle yn elwa o’r hyfforddiant.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a gafodd ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 7 Rhagfyr 2010 a derbyniodd gydsyniad brenhinol gan Ei Mawrhydi ar 9 Chwefror 2011 yn datgan bod statws swyddogol i’r Gymraeg yng Nghymru ac yn creu swydd Comisiynydd y Gymraeg

Roedd y ddeddfwriaeth hefyd wedi gwneud darpariaeth ar gyfer Safonau’r Gymraeg, gan gynnwys dyletswyddau i gydymffurfio â’r Safonau a hawliau sy’n deillio o allu gorfodi’r Safonau hynny. Mae colegau addysg bellach yn dod o dan y ddeddfwriaeth hon.

Mae Safon 138 yng nghod ymarfer drafft rheoliadau rhif 6 (y rheoliadau sy’n berthnasol i golegau addysg bellach) yn nodi bod dyletswydd ar gyrff i ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i’w cyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, sef gwersi sydd ar gyfer dysgu sgiliau sylfaenol yn Gymraeg, fel sgiliau gwrando, deall, darllen, siarad ac ysgrifennu. Yn ôl

y safonau gall ‘*gwersi Cymraeg sylfaenol*’ gynnwys hyfforddiant ar lefel cyn-fynediad, hynny yw hyfforddiant a ddarperir cyn i gyflogai wneud hyfforddiant ar lefel cwrs mynediad.

Mae Safon 139 yn nodi bod haid i gyrff ddarparu cyfleoedd i gyflogeion, sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol, gael hyfforddiant pellach, yn rhad ac am ddim, er mwyn datblygu eu sgiliau iaith ymhellach. Gall hynny gynnwys hyfforddiant ar bob un o’r lefelau cyrsiau Dysgu Cymraeg neu unrhyw lefel arall sy’n datblygu sgiliau iaith Gymraeg y cyflogai ymhellach y tu hwnt i’r lefel a gyrhaeddir yn dilyn gwersi Cymraeg sylfaenol.

Mae’r safon hefyd yn egluro gall y corff sicrhau bod yr hyfforddiant yn cael ei gynnal yn ystod oriau gwaith arferol y cyflogai, ond nid oes rhaid gwneud hynny er mwyn cydymffurfio â’r safon. Fodd bynnag, disgwylir i’r corff sicrhau na fyddai’r oriau y mae’r corff yn eu cynnig i gyflogai yn golygu bod y cyflogai o dan unrhyw anfantais.

Dylid nodi, er bod y cynnwys uchod yn deillio o god ymarfer drafft, mae’r geiriad yn gyson â chodau ymarfer ar gyfer sectorau eraill sydd wedi cael eu cymeradwyo eisoes gan Senedd Cymru.

Roedd rheolwyr a staff yn cyfeirio’n gyson at y ffaith bod heriau’n bodoli o hyd o ran sicrhau amser digyswllt i staff ddilyn cyrsiau iaith fydd yn arwain at gynnydd digonol, heb roi’r staff hynny dan anfantais trwy lwyth gwaith trymach na chydweithwyr. Mae hyn yn awgrymu’n gryf bod angen i golegau ystyried sut gallent sicrhau bydd gan staff gyfle i ddysgu heb ychwanegu at eu llwyth gwaith.

# Enghreifftiau o arfer dda

## Y ffordd ymlaen

Yn ystod y gwaith maes, gwelwyd enghreifftiau o arfer dda sy'n cynnig y ffordd ymlaen o ran sicrhau llwyddiant hyfforddiant a gwireddu nodau'r cynllun gwreiddio i alluogi pob aelod o staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg beth bynnag yw eu lefel iaith bresennol a chyfrannu at addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Mae'r astudiaethau isod yn enghreifftiau clir o sut mae cynllunio bwriadus yn cynnig llwybrau clir i ymarferwyr symud i fyny'r pyramid iaith o ran eu medrau iaith eu hunain a'u haddysgeg. Mae'r enghraifft gyntaf yn bwerus yn y ffordd mae'n cynnig cymhelliannau ariannol law yn llaw â datblygiad proffesiynol parhaus i flaengynllunio'n strategol effeithiol.

Mae astudiaeth achos Coleg Cambria yn arddangos yr hyn sydd yn bosib gyda gweledigaeth a chefnogaeth gref uwch arweinwyr sefydliad. Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o weledigaeth y coleg ac mae ei weithdrefnau'n osgoi nifer o'r meysydd i'w gwella a welir yng ngweddill yr adroddiad hwn:

- Mae arweinwyr ar bob lefel yn glir am bwysigrwydd strategol cynyddu defnydd o'r Gymraeg i'r coleg.
- Mae'r cynllun 'Methodoleg Addysgwyr Dwyieithog' yn targedu staff gyda medrau iaith cryf eisoes.
- Mae'n cynnig amser priodol i staff gyflawni'r cwrs fel rhan o'u 24 o oriau addysgu.
- Mae'n cydnabod y Gymraeg fel sgìl, ac o ganlyniad yn cynnig cydnabyddiaeth ariannol i ymarferwyr sydd yn meddu ar uwch fedrau addysgeg ddwyieithog.
- Mae gweithdrefnau arsylwi a sicrhau ansawdd mewnol y coleg yn gadarn. Mae cyfarwyddwyr cwricwlwm yn derbyn hyfforddiant i gynnal teithiau dysgu ac addysgu gyda'r Gymraeg yn rhan allweddol o'r meini prawf. Trwy hyn, caiff y Gymraeg le blaenllaw ochr wrth ochr a meysydd fel cynhwysiad ac amrywiaeth mewn cyfarfodydd o uwch reolwyr y coleg. O ganlyniad, mae modd addasu darpariaeth a hyfforddiant yn gyflym yn unol â gofynion staff, hyd yn oed ar lefel feicro. Er enghraifft, roedd modd adnabod yr angen i gynnig rhagor o hyfforddiant i staff chwaraeon wella eu defnydd o fodd gorchmynnol y ferf.

Mae canllawiau Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn dangos gwerth canllawiau clir o ran creu amgylchedd addysgu a dysgu dwyieithog sy'n arwain at greu ymarferwr uchelgeisiol gyda nod strategol hollol bendant o ran ble maent am gyrraedd o ran cynyddu defnydd o'r Gymraeg

Mae cynllun 'Ein Taith Iaith' Coleg Pen-y-bont yn dangos gwerth datblygu uchelgais ymarferwyr trwy greu system o ddyfarniadau mewnol sy'n datblygu addysgeg yn fuddiol, ac ar yr un pryd yn cynnig cydnabyddiaeth broffesiynol o gyflawniadau staff trwy raglen fwriadus o hyfforddiant a mentora.

### Astudiaeth achos 1: Coleg Cambria – y Gymraeg yn talu ei ffordd

#### Gwybodaeth am y darparwr

Mae Coleg Cambria yn darparu addysg bellach a phrentisiaethau yng ngogledd ddwyrain Cymru.

#### Cyd-destun a chefndir yr arfer

Penderfynodd y coleg yn strategol i ddatblygu eu gweithlu eu hunain yn fewnol trwy'r cynllun 'Methodoleg Addysgwyr Dwyieithog'.

#### Disgrifiad o'r gweithgaredd / strategaeth

Cynigiwyd lle ar y cynllun i'r holl ymarferwyr sy'n dysgu'n ddwyieithog i ddatblygu eu haddysgeg fel rhan o weledigaeth strategol y coleg a derbyniwyd 14 o staff ar y cynllun. Cwrs 2 awr yr wythnos ydyw ond i gydnabod gwerth y gwaith nodwyd yn glir bod staff sy'n cyfranogi yn dysgu 22 awr yr wythnos yn lle'r 24 awr arferol. Cafodd amserlenni'r staff eu haddasu fel eu bod yn gallu mynychu'r sesiynau wyneb yn wyneb a hybrid ar wahanol safleoedd y coleg. Mae disgwyl iddynt fynychu a chwblhau'r cwrs gan ddatblygu eu dealltwriaeth am fethodoleg addysgu a dysgu iaith effeithiol, cyflwyno gweithgareddau yn Gymraeg ac yn gynyddol ddwyieithog yn ogystal â pharatoi adnoddau dwyieithog.

Mae'r coleg yn pwysleisio pwysigrwydd strategol y gwaith gan gynnig cymhelliannau ariannol am gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu sesiynau, sef £250 bob tymor am y flwyddyn gyntaf ac yna £750 ychwanegol wrth iddynt gael eu hasesu.

#### Effaith ar ddarpariaeth a safonau

Er bod y cynllun hwn yn newydd i'r coleg, gwelir eisoes bod yr ymarferwyr yn gynyddol hyderus yn eu haddysgeg. Ystyria'r coleg fod y cynllun hwn yn gonglfaen yn ei ymdrechion i gynyddu nifer y staff a myfyrwyr a phrentisiaid sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu haddysgu a dysgu.

### Astudiaeth achos 2: Canllaw creu Dosbarth dwyieithog

#### Gwybodaeth am y darparwr

Mae Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn cynnig addysg ôl-16 ar saith o gampysau ar draws Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

### Cyd-destun a chefndir yr arfer

Mae gan y coleg raglen ddatblygu staff fewnol. Mae'r holl staff yn cwblhau cwrs ymwybyddiaeth am y Gymraeg yn ystod y cyfnod anwytho. Mae'n rhaid i'r holl staff ymuno ag ystod o 'lwybrau' dysgu proffesiynol, gan gynnwys llwybr a ddisgrifir fel 'Llwybr dwyieithog'.

### Disgrifiad o'r gweithgaredd / strategaeth

Mae'r coleg wedi creu 'Canllaw i greu eich ystafell ddosbarth ddwyieithog'. Mae wedi'i seilio ar egwyddorion y pyramid iaith ac mae'n cynnwys cyfarwyddiadau ac enghreifftiau defnyddiol o sut gall ymarferwyr gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg mewn tri chategori sef 'sylfaenol, gwell a gorau'.

Mae'r coleg hefyd yn cynnig cyfleoedd i staff sy'n dangos ymrwymiad i ddysgu'r iaith fynd ar gyrsiau Cymraeg preswyl yn Nant Gwrtheyrn.

### Effaith ar ddarpariaeth a safonau

Mae'r mentrau hyn wedi creu cymuned fewnol o staff, ble bynnag maent ar y pyramid neu gontinwwm iaith, sy'n awyddus i ddatblygu eu haddysgeg ddwyieithog

### Astudiaeth achos 3: Gwobrwyo'r Gymraeg

### Gwybodaeth am y darparwr

Mae Coleg Pen-y-bont yn cynnig addysg bellach ym ardal Pen-y- bont ar Ogwr, De Cymru.

### Cyd-destun a chefndir yr arfer

Mae'r coleg yn gweithredu'n strategol i symud arferion addysgu staff i fyny'r pyramid iaith trwy gynllun o'r enw 'Ein Taith Iaith'.

### Disgrifiad o'r gweithgaredd / strategaeth

Mae'r coleg wedi creu canllaw clir i staff sydd yn gosod disgwyliadau'r coleg o ran datblygu eu harferion addysgu wrth symud i fyny'r pyramid iaith. I sicrhau bod ymdrechion staff yn cael eu cydnabod, mae dyfarniadau addysgu dwyieithog ar dair lefel ar gael sef efydd, arian ac aur. Mae pob dyfarniad yn cyfateb i ddefnydd cynyddol o'r cynnwys Cymraeg yn eu sesiynau. Er enghraifft, mae ddyfarniad efydd yn cyfateb i ddarpariaeth B3, y dyfarniad arian i B3+ a'r dyfarniad aur i ddarpariaeth B2. Mae disgwyl i staff fynychu cyfarfodydd 1-i-1 gydag ymarferydd arweiniol ar daith iaith gyda nifer y sesiynau hyn yn lleihau wrth iddynt ddatblygu eu hyder i weithio'n annibynnol a chydweithio ag ymarferwyr eraill.

### Effaith ar ddarpariaeth a safonau

Mae'r cynllun wedi cael effaith bendant ar arferion addysgu, gyda dros 30 o staff yn ei gwblhau y llynedd ac yn cyrraedd dyfarniadau efydd/arian sef B3 neu hyd yn oed dyfarniad aur (B3). Eleni, mae tua 50 o staff yn rhan o'r cynllun.

# Atodiad 1: Cynnydd yng ngallu iaith y gweithlu

## Ystadegau Blynyddol y Gweithlu Addysg 2024: Cyngor y Gweithlu Addysg

[Adroddiad Ystadegau Blynyddol y Gweithlu Addysg]

### Nifer yr athrawon addysg bellach wedi’u cofrestru yn ôl y gallu i siarad Cymraeg

| | 2020 | | 2021 | | 2022 | | 2023 | | 2024 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Ydynt | 1,095 | 16.2 | 1,083 | 16.4 | 1,120 | 16.7 | 1,160 | 17.1 | 1,204 | 18.0 |
| Nac ydynt | 4,290 | 63.5 | 4,253 | 64.4 | 4,539 | 67.7 | 4,658 | 68.7 | 4,750 | 70.9 |
| Anhysbys | 1,371 | 20.3 | 1,269 | 19.2 | 1,043 | 15.6 | 967 | 14.3 | 748 | 11.2 |
| Cyfanswm | 6,756 | 100.0 | 6,605 | 100.0 | 6,702 | 100.0 | 6,785 | 100.0 | 6,702 | 100.00 |

### Nifer yr athrawon addysg bellach wedi’u cofrestru yn ôl y gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg

| | 2020 | | 2021 | | 2022 | | 2023 | | 2024 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Ydynt | 764 | 11.3 | 771 | 11.7 | 789 | 11.8 | 814 | 12 | 860 | 12.8 |
| Nac ydynt | 4,618 | 68.4 | 4,564 | 69.1 | 4,868 | 72.6 | 5,001 | 73.7 | 5,090 | 75.9 |
| Anhysbys | 1,374 | 20.3 | 1,270 | 19.2 | 1,045 | 15.6 | 970 | 14.3 | 752 | 11.2 |
| Cyfanswm | 6,756 | 100 | 6,605 | 100 | 6,702 | 100 | 6,785 | 100 | 6,702 | 100 |

### Nifer yr gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach wedi’u cofrestru yn ôl y gallu i siarad Cymraeg

| | 2020 | | 2021 | | 2022 | | 2023 | | 2024 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Ydynt | 814 | 15.1 | 799 | 15.2 | 824 | 14.8 | 940 | 15.2 | 975 | 15.7 |
| Nac ydynt | 3,642 | 67.4 | 3,597 | 68.6 | 4,101 | 73.8 | 4,704 | 76.1 | 4,838 | 77.9 |
| Anhysbys | 951 | 17.6 | 847 | 16.2 | 631 | 11.4 | 538 | 8.7 | 399 | 6.4 |
| Cyfanswm | 5,407 | 100 | 5,243 | 100 | 5,556 | 100 | 6,182 | 100 | 6,212 | 100 |

### Nifer yr gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach wedi’u cofrestru yn ôl y gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg

| | 2020 | | 2021 | | 2022 | | 2023 | | 2024 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Ydynt | 563 | 10.4 | 563 | 10.7 | 568 | 10.2 | 628 | 10.2 | 690 | 11.1 |
| Nac ydynt | 3,897 | 72.1 | 3,836 | 73.2 | 4,361 | 78.5 | 5,019 | 81.2 | 5,125 | 82.5 |
| Anhysbys | 947 | 17.5 | 844 | 16.1 | 627 | 11.3 | 535 | 8.7 | 397 | 6.4 |
| Cyfanswm | 5,407 | 100 | 5,243 | 100 | 5,556 | 100 | 6,182 | 100 | 6,212 | 100 |


### Nifer yr ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith wedi’u cofrestru yn ôl y gallu i siarad Cymraeg

| | 2020 | | 2021 | | 2022 | | 2023 | | 2024 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Ydynt | 456 | 12.9 | 435 | 13.1 | 432 | 13 | 476 | 14.3 | 558 | 15.8 |
| Nac ydynt | 2,362 | 66.7 | 2,267 | 68.3 | 2,514 | 75.7 | 2,543 | 76.4 | 2,759 | 78.1 |
| Anhysbys | 722 | 20.4 | 619 | 18.6 | 373 | 11.2 | 308 | 9.3 | 216 | 6.1 |
| Cyfanswm | 3,540 | 100 | 3,321 | 100 | 3,319 | 100 | 3,327 | 100 | 3,533 | 100 |


### Nifer yr ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith wedi'u cofrestru yn ôl y gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg

| | 2020 | | 2021 | | 2022 | | 2023 | | 2024 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Ydynt | 314 | 8.9 | 313 | 9.4 | 321 | 9.7 | 355 | 10.7 | 425 | 12 |
| Nac ydynt | 2,502 | 70.7 | 2,384 | 71.8 | 2,624 | 79.1 | 2,663 | 80 | 2,891 | 81.8 |
| Anhysbys | 724 | 20.5 | 624 | 18.8 | 374 | 11.3 | 309 | 9.3 | 217 | 6.1 |
| Cyfanswm | 3,540 | 100 | 3,321 | 100 | 3,319 | 100 | 3,327 | 100 | 3,533 | 100 |

### Canran o athrawon addysg bellach cofrestredig, gweithwyr cymorth addysg bellach ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith sy'n gallu siarad Cymraeg, 2020 i 2024



Canran o athrawon addysg bellach cofrestredig, gweithwyr cymorth addysg bellach ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, 2020 i 2024



## Dulliau a sail y dystiolaeth

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth o ymweliadau â sampl o golegau a darparwyr prentisiaethau. Dewiswyd y sefydliadau ar sail eu maint, eu lleoliad daearyddol a'u ystod ddarpariaeth. Dylid nodi bod gan rai colegau addysg bellach ddarpariaeth prentisiaethau a ystyriwyd yn y gwaith hwn. Cynhaliwyd ymweliadau mewn person ac ymweliadau rhithiol.

Ymwelom â 10 coleg addysg bellach (saith gyda darpariaeth prentisiaethau) yn ogystal â dau ddarparwr prentisiaethau. Cynhaliwyd naw ymweliad mewn person a thri yn rhithiol.

Anfonwyd holiaduron at:

- reolwyr a swyddogion y Gymraeg pob coleg addysg bellach a darparwr prentisiaethau (30 ymateb)
- tiwtoriaid a chydlynwyr Cymraeg Gwaith (27 ymateb)
- llysgenhadon addysg bellach (5 ymateb)

Yn ystod ymweliadau, cynhaliom gyfarfodydd gyda rheolwyr a staff perthnasol, yn ogystal â chynnal grwpiau ffocws o staff sydd wedi ymwneud â'r hyfforddiant, tiwtoriaid Cymraeg Gwaith a myfyrwyr. Arsylwom sesiynau hyfforddiant (E-ddysgu, Sgiliaith a Cymraeg Gwaith) mewn person ac yn rhithiol.

Cynhaliwyd cyfarfodydd hefyd gyda rheolwyr a swyddogion perthnasol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Hoffai Estyn ddiolch i'r colegau a darparwyr prentisiaethau canlynol a dderbyniodd ymweliad gan aelodau'r tîm.

- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Coleg Cambria
- Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion
- Coleg Gwent
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Coleg y Cymoedd
- Grŵp Llandrillo Menai
- Coleg Merthyr Tudful
- Coleg Pen-y-bont
- Grŵp Colegau NPTC a SAW
- EDUC8
- ITEC

## Geirfa

**Addysgeg** Y dull a'r arfer o addysgu

**Addysg ôl-orfodol** Addysg a gynhelir ar ôl oedran addysg orfodol a elwir weithiau yn addysg ôl-16

**Prentisiaeth** Math o hyfforddiant sy'n cynnig cyfle i ennill cymwysterau galwedigaethol wrth ddysgu mewn cyflogaeth

**Pyramid Iaith** Defnyddir Model Datblygu Sgiliau sef y pyramid iaith gydag ymwybyddiaeth ar y gwaelod a rhuglder ar y brig i gynllunio hyfforddiant a chefnogi ymarferwyr i ddatblygu eu medrau iaith ar hyd y continwwm iaith.

### Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Cyfeiriadau


Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru (2019) *Tuag at Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg.* Caerfyrddin: Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Ar gael ar-lein: tuagatcymraeg2050.pdf (colegcymraeg.ac.uk)

Cyngor y Gweithlu Addysg (2024) *Ystadegau Blynyddol ar gyfer y Gweithlu Addysg yng Nghymru 2024*. Caerdydd: CGA. Ar gael ar-lein: Adroddiad Ystadegau Blynyddol y Gweithlu Addysg

Estyn (2017) Addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach. Caerdydd: Estyn. Ar gael ar-lein: Addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach - Estyn

Estyn (2025) *Adroddiad Blynyddol 2023 – 2024.* Caerdydd: Estyn. Ar gael ar lein: Adroddiad Blynyddol | Annual Report – Estyn

Llywodraeth Cymru (2017) Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr (llyw.cymru). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael ar-lein: Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg | LLYW.CYMRU 2050: Miliwn o siaradwyr

Llywodraeth Cymru (2018) *Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru: cofnodi dysgu cyfrwng Cymraeg.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael ar-lein: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru: cofnodi dysgu cyfrwng Cymraeg | LLYW.CYMRU.

*Mesur y Gymraeg (Cymru)* (2011) Mesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ar gael ar-lein: Welsh Language (Wales) Measure 2011: